

## Ordinhad 13

### Y Llys

<b>Corff cymeradwyo:</b>	Y Cyngor
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	24 Ebrill. 2020
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Ysgrifennydd y Brifysgol
<b>Swyddog Polisi:</b>	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
<b>Statws y Polisi:</b>	Newydd
<b>Fersiwn:</b>	1.0
<b>Dyddiad adolygu:</b>	Ebrill 2023

## **Ordinhad 13**

### **Y Llys**

#### 1. Cyfansoddiad y Llys

Bydd y canlynol yn aelodau o'r Llys:

##### a. Aelodau ex-officio:

- i. Y Canghellor
- ii. Dirprwy Ganghellor
- iii. Yr Is-ganghellor;
- iv. Unrhyw Ddirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion;
- v. Deoniaid Colegau
- vi. Aelodau'r Cyngor
- vii. Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol yr etholaethau hynny a gwmpesir gan y Cynghorau a restrir yn 1.e.i. isod.

##### b. Cynrychiolwyr o'r sector Addysg

- i. Penaethiaid y sefydliadau Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru a benodwyd gan y sefydliadau.

##### c. Cynrychiolwyr o'r sector Iechyd

- i. Un cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac un cynrychiolydd o unrhyw Fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru fel y gall y Cyngor ei fanylu'n flynyddol.

##### d. Cynrychiolwyr o blith pobl leol o bwys a ffigyrau cyhoeddus blaenllaw

- i. Un cynrychiolydd o Gyngor Dinas Bangor
- ii. Arglwydd Raglaw Ei Mawrhydi dros Sir Gwynedd

##### e. Cynrychiolwyr wedi'u penodi gan Awdurdodau Cyhoeddus

- i. Un cynrychiolydd o bob un o brif Gyngorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys a Wrecsam a benodwyd gan y Cynghorau.

##### f. Cynrychiolwyr Undebau Llafur a Grwpiau Proffesiynol

- i. Aelod o staff y brifysgol a benodwyd gan bob un o undebau llafur cydnabyddedig y campws.

##### g. Cynrychiolwyr o ddiwydiant, busnes a masnach

- i. Un cynrychiolydd wedi'i enwebu gan Glwb Busnes Gogledd Cymru.
- ii. Un cynrychiolydd wedi'i enwebu gan CBI (Gogledd Cymru).

##### h. Cynrychiolwyr myfyrwyr

- i. Dau berson a enwebwyd gan Undeb y Myfyrwyr
  - i. Cynrychiolwyr cyn-fyfyrwyr
    - i. Dau berson a enwebwyd gan y Bwrdd Ymgynghorol Alumni
  - j. Aelodau Cyfetholedig
    - i. Hyd at 10 person a benodwyd gan y cyngor.
2. Cyfarfod cyhoeddus yw'r Llys, ond dim ond aelodau sy'n cael pleidleisio ar unrhyw fater.
3. Telerau Aelodaeth y Llys
- a. Bydd aelodau fel rheol yn dal eu swyddi am dair blynedd, o ddyddiad eu penodiad.
  - b. Bydd aelodau cynrychioliadol yn gadael y swydd pan fyddant yn peidio â bod yn aelodau o'r corff a'u penododd, ac eithrio mewn achosion lle nad oeddent yn aelod o'r cyfryw gorff pan wnaed y penodiad.
  - c. Bydd aelodau ex-officio yn aelodau o'r Llys dros gyfnod eu tymor perthnasol mewn swydd.
  - d. Gellir ystyried aelodau sy'n dod i ddiwedd eu tymor ar gyfer ailbenodiad neu eu hail-ethol am un tymor pellach.
  - e. Gall aelod o'r Llys ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y Llys.
  - f. Rhaid i'r person neu'r corff a benododd unrhyw aelod o'r Llys y daw ei safle yn wag gymryd camau i lenwi'r swydd wag cyn gynted â phosibl.
4. Pwerau'r Llys
- a. Derbyn, cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau am adroddiadau ar waith y brifysgol;
  - b. Derbyn, cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau am y Datganiadau Ariannol Archwiliedig Blynyddol;
  - c. Trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r brifysgol a gwneud argymhellion i'r Cyngor fel y gwêl yn dda;
  - d. Gweithredu fel fforwm i drafod rôl y brifysgol yn y gymuned.
5. Cyfarfodydd y Llys
- a. Bydd y Llys yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i dderbyn gwybodaeth am waith y brifysgol.
  - b. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Llys yn cynnwys:
    - 1. Croeso gan y Canghellor;
    - 2. Adroddiad ar waith y brifysgol gan Gadeirydd y Cyngor;
    - 3. Y Cyfrifon blynyddol;
    - 4. Anerchiad gan yr Is-ganghellor; a
    - 5. Chyflwyniadau eraill ar weithgaredd y brifysgol.
  - c. Dosberthir rhaglen cyfarfod y Llys yn Gymraeg ac yn Saesneg.

d. Bydd gan bob aelod yr hawl, wrth annerch y Llys, i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.